

Siop y Diweddar Dafydd Hughes, Llandudno

Trwy ddamwain, rhywsut, y bu inni ddechrau gwerthu llyfrau ail-law yn Stryd Madog, Llandudno.

Wedi treulio saith mlynedd yn Llundain – Dafydd fel gwas sifil a minnau fel athrawes, cawsom y cyfle yn 1956 i fod yn berthnigion ar siop fferins, sigarennau, teganau a nwyddau o bob math ar gyfer ymwelwyr haf yn Llandudno. Ac felly y bu am dair blynedd ar ddeg. Roeddym yn byw uwchben y siop y pryd hynny a bu inni fagu pedwar o blant yno!

Yn 1968, rhoisom ychydig o lyfrau 'paper-backs' – chwedl y Sais – ar fwrdd y tu allan i'r siop ac roedd mynd da arnynt. Datblygodd y rhain i lyfrau clawr caled a chael parch y tu fewn i'r siop! O dipyn i beth fe ddiflannodd y teganau, y pop a'r hufen iâ ac fe gymerodd y llyfrau drosodd! Dechreuasant gerdded i fyny'r grisiau – fel y gŵyr y rhan fwyaf o'n cwsmeriaid, a bu rhaid inni ymorol am gartref newydd.


Oeddynt, roedd y llyfrau wedi dechrau cymryd drosodd y pryd hynny ac erbyn hyn mae pedwar llawr o lyfrau yn yr hen siop, a rhagor yn aros am le ar y silffoedd.

Fe gafodd Dafydd lawer iawn o fwynhad yn casglu'r llyfrau dros y blynyddoedd, ac roedd wrth ei fodd yn cael ei wahodd i brynu casgliadau pobl, yn enwedig os oeddynt yn rhai prin, a chael cyfarfod â rhai pobl arbennig iawn. Credaf iddo fod ym mhob tŷ bron yn y Gogledd 'ma, a minnau wrth fy modd yn cael 'run-out' i'w helpu eu cario. Rhai o'r atig a rhai o'r seler, rhai yn cael parch mawr ac eraill yn llawn llwch! Y cwestiwn ar y ffordd adref oedd 'Lle rydyn ni'n mynd i'w rhoi y tro yma?'

Y llwyth mwyaf a gawsom oedd o dŷ rhyw Athro Henry Badley o Benarlâg a arferai gadw stondin lyfrau a phob math o bethau eraill yn y farchnad yn yr Wyddgrug. Roedd dros ei 90 oed pan fu farw a phob cornel o'r tŷ yn llawn o lyfrau – roedd pob dodrefnyn wedi ei guddio o tanynt.

Roedd siediau yn y cefn oedd wedi mynd â'u pen iddynt, yn llawn o lyfrau a Dafydd yn crugo na allai fynd i mewn atynt! Bu'n rhaid cael dwy siwrnai gyda fan symud tŷ i'w cludo oddi yno!

Ni fyddai Dafydd yn hoff iawn o werthu llyfrau prin, oherwydd mae'n debyg y teimlai y buasai'n anodd cael rhai tebyg yr eildro. Aml y clywais o'n dweud – 'Iawn,



Dafydd Hughes ynghanol ei lyfrau

gwnaf ei werthu i chi os gwnewch addo ei werthu yn ôl imi pan fyddwch wedi blino arno!

Roedd wedi dysgu llawer am werth llyfrau dros y blynyddoedd ac roedd ganddo gof arbennig. Gallai gysylltu


wyneb a ddeuai trwy'r drws â llyfr oedd wedi ei archebu fisoedd ynghynt.

Roedd y siop wedi dod yn fan cyfarfod ers talwm – y wraig yn mynd i siopa tra byddai'r gŵr yn chwilota am ryw drysor newydd ac yn cael sgwrs, ac yna'n gorfod cuddio'r llyfrau cyn i'r wraig ddod yn ei hôl! Bu llawer o dynnu coes.

Erbyn hyn, teimlaf mai dyma'r adeg imi feddwl am werthu'r siop tra rwyf mewn iechyd, er mwyn lleihau'r gwaith i'r plant yn y dyfodol. Fe hoffwn yn fawr iddi barhau fel siop lyfrau gan fod cymaint yn mwynhau dod iddi o bob cwr o'r wlad, a'r byd o ran hynny. Beth amdani?

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i'n holl gwsmeriaid am eu ffyddlondeb tros y blynyddoedd a daliwch i ddarllen.

EIRYS



Dafydd Hughes tu allan i'w siop

Ar Werth

Siop Lyfrau Dafydd Hughes, 21 Stryd Madog
Llandudno LL30 2TL

Adeilad 4 llawr, gyda lle i barcio dau gar yn y cefn.
Wedi ei lleoli yng nghanol tref brysur Llandudno a'i sefydlu
ers 1968, gyda chwsmeriaid o bob rhan o'r wlad a thramor.
Mae pedwar llawr o lyfrau o bob math yn y gwerthiant.

Os am gysylltu, ffoniwch ar
(01492) 876243 neu 877700